Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: gwelliant â ffocws

**Cylch Meithrin Yr Wyddgrug Mold**
**Ty`r Clwb**
**Rhodfa`r Parc**
**Yr Wyddgrug**
**Sir y Fflint**
**CH7 1RY**

**Dyddiad yr ymweliad: Mehefin 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Watkins | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Cylch Meithrin yr Wyddgrug wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Mehefin 2011.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r cylch o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Adolygu cynllunio'r cwricwlwm fel bod yr addysgu a'r dysgu yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r plant

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Dan arweiniad cadarn y dirprwy arweinydd, mae ansawdd y cynllunio wythnosol wedi datblygu'n llwyddiannus iawn ac mae bellach wedi gwreiddio fel rhan annatod o weithgaredd y cylch. Mae'r ymarferwyr i gyd yn cyfrannu'n llawn i'r broses gynllunio ac mae'r cyfarfodydd wythnosol yn sicrhau bod datblygu medrau'r plant yn cael sylw dyledus. Mae tystiolaeth o ddatblygiad ym medrau'r plant ar ffurf lluniau yn fodd effeithiol o rannu gwybodaeth gyda rhieni.

Mae'r cynlluniau bellach yn gynhwysfawr ac yn ymateb yn llawn i'r chwe maes dysgu. Trwy fonitro gofalus, mae'r dirprwy arweinydd yn adnabod meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach yr wythnos ganlynol, ac yn gweithredu ar hyn.

Mae ymarferwyr wedi elwa'n fawr o'r hyfforddiant a'r gefnogaeth gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae hyn wedi arwain at awyrgylch dysgu effeithiol ac ysgogol.

### Argymhelliad 2: Mireinio'r gweithdrefnau asesu er mwyn nodi datblygiad o fedrau'r plant a'r cam nesaf yn eu dysgu a defnyddio'r wybodaeth hon yn y cynllunio

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr bellach yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau asesu cadarn yn eu lle. Maent yn deall yn glir eu rolau unigol yn y broses arsylwi a chofnodi. Mae'r ymarferwyr yn olrhain cynnydd yn natblygiad pob plentyn o ran medrau penodol yn bwrpasol. Mae'r cylch yn cynnig cyfle rheolaidd i rieni i gwrdd â'r ymarferwr sy'n gyfrifol am eu plentyn er mwyn trafod sut mae'r plant yn setlo a datblygu. Mae'r arfer hwn yn gwreiddio'n dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar y bartneriaeth sy'n bodoli rhwng y cylch â'r rhieni.

Y dirprwy arweinydd sy'n gyfrifol am fonitro'r gweithdrefnau asesu. Mae'n cydweithio'n llwyddiannus gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau asesiadau rheolaidd. Mae'r cofnodion asesu unigol ar ffurf ffurflenni "Dyma Fi" bellach yn cael eu diweddaru'n gyson ac yn effeithiol. Maent yn cael eu defnyddio'n briodol, gan ddylanwadu'n uniongyrchol ar y cynlluniau ar gyfer

datblygu'r camau nesaf ar gyfer y plant. Mae gweithdrefnau asesu a chynllunio yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a lles y plant.

**Argymhelliad 3: Ymestyn rôl yr arweinyddiaeth i gefnogi staff newydd ymhellach**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan arweinwyr y cylch ddealltwriaeth gadarn o'r angen i arwain staff yn eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae ethos o gydweithio effeithiol yn bodoli ymysg yr holl ymarferwyr. Mae'r pwyllgor rheoli wedi adolygu rolau a chyfrifoldebau pob aelod o staff ac mae swydd ddisgrifiadau'r arweinwyr bellach yn glir.

Mae'r pwyllgor rheoli wedi sicrhau cyllid i gynnal cyfarfodydd un i un yn wythnosol gyda'r staff fel rhan o'r broses gynllunio. Mae'r ymarferwyr yn elwa o'r cyfarfodydd hyn. O ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cynllunio ac asesu, a'u rôl nhw o fewn y broses yn datblygu'n dda.

**Argymhelliad 4: Datblygu a gosod offer yn yr ardal tu allan er mwyn ymestyn profiadau'r plant**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan y cylch fynediad llawn i lecyn addas yn yr awyr agored sydd ag arwynebedd chwarae meddal a glaswellt. Yn dilyn ymweliad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar ôl ymweliad monitro Estyn yn Nhachwedd 2013, gwaharddwyd y cylch rhag defnyddio'r ardal tu allan tan ganol Ionawr 2014.

Yn y cyfamser, bu'r staff ar gyrsiau pwrpasol ar gyfer cynllunio, paratoi a defnyddio ardaloedd tu allan. O ganlyniad, llwyddwyd i barhau i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o'r awyr agored drwy fynd â nhw ar deithiau cerdded byr i brofi'r tywydd ac i edrych ar goed gerllaw.

Mae'r pwyllgor newydd wedi datblygu'r defnydd o'r gofod tu allan ymhellach er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Mae blychau ar gyfer plannu wedi eu gosod tu allan ac mae'r plant wedi cynorthwyo i'w llenwi â blodau. Mae hyn wedi gwella'u hymwybyddiaeth o fyd natur. Mae'r plant hefyd wedi 'helpu' i osod cerrig camu yn yr ardal tu allan.

Bellach, mae nodi cyfleoedd dysgu awyr agored yn rhan annatod o gynllunio'r cylch. O ganlyniad, mae'r plant yn cael cyfleoedd cyson i gyfoethogi eu profiadau.

Mae'r mater iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr ymweliad diwethaf wedi ei ddatrys.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at gyflawni'r argymhellion arolygu nad aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto.